

Pwyllgor Diwylliant - CC-13-01(p.1a)

Dyddiad: 18^{fed} Gorffennaf 2001

Amser: 9.00am-12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 1, y Cynulliad Cenedlaethol

Papur gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg

Ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg hoffwn ddiolch am y cyfle hwn i roi tystiolaeth ger bron y Pwyllgor Diwylliant heddiw. Prif fyrdwn ein dadl fydd yr angen am Ddeddf Iaith Newydd. Ond ni fyddai'r cyntaf i gydnabod na fyddai sicrhau Deddf Iaith ynddo ei hun yn datrys problemau'r iaith Gymraeg. Mae angen pecyn o fesurau ychwanegol at Ddeddf Iaith megis gweithredu mewn meysydd mor amrywiol a thai a chynllunio, addysg, a thechnoleg gwybodaeth. Yn wir bydd angen gweithredu mewn meysydd sydd y tu hwnt i awdurdod y pwyllgor hwn.

Mae hyn yn codi'r pwynt nad cyfrifoldeb y Pwyllgor hwn yn unig yw'r iaith Gymraeg. Mae'n gyfrifoldeb pob un o bwyllgorau eraill y Cynulliad hefyd – Datblygu Economaidd, Iechyd, Amaethyddiaeth, Addysg, Llywodraeth Leol a Thai a Chynllunio a'r Amgylchedd. Ag eithrio'r Pwyllgor Pwnc ar Addysg rwy'n amau'n gryf os oes unrhyw bwyllgor arall wedi rhoi unrhyw ystyriaeth ddifrifol i'r iaith Gymraeg. Wedi'r cwbl mae lluo o adroddiadau gan yr amrywiol bwyllgorau wedi methu a chyfeirio at y Gymraeg o gwbl heb son am gydnabod fod i'r Gymraeg le cwbl greiddiol ym mywyd cenedlaethol Cymru.

Dyna pam fod angen sefydlu ar fyrder Bwyllgor |Llorweddol ar yr iaith Gymraeg a mynnu hefyd fod pob un o'r pwyllgorau pwnc yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar yr ystyriaethau a roddwyd ganddynt i'r Gymraeg yn eu trafodaethau a'u hadroddiadau. Ymddengys fod yna yn y Cynulliad Cenedlaethol fodlonni ar sicrhau gwasanaeth cyfieithu effeithiol gan ystyried hynny fel iawn am unrhyw ddiffygion eraill. O son am ddiffygion eraill mae gennym hawl i wybod lle mae Cynllun Iaith y Cynulliad arni. Nid yr un a etifeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ond yr un newydd yr ydym wedi bod yn aros yn eiddgar amdano ers cyhyd.

Credaf er hynny fod holl agwedd y Cynulliad Cenedlaethol at yr iaith Gymraeg yn gorwedd yn hyd a lled ei hymrwymiad i Ddeddf Iaith Newydd. Nid Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn unig sy'n dweud hyn wrth gwrs. Hoffwn ddyfynnu geiriau yr Athro Colin Williams, aelod o Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac un sydd eisoes wedi bod ger bron y Pwyllgor hwn. Mewn llyfr rhagorol a olygwyd ganddo **Language Revitalisation** mae'n dweud:

"A third issue for political debate is how the Assembly will respond to calls for a revised Welsh

*Language Act to influence developments within the private sector. **This is the acid test of the political commitment of the Assembly to constructing a bilingual society.** There are many variants on how such an Act could be implemented, but at present the government has shown little interest in sponsoring inquiries, whether they be commercial, linguistic or legalistic in nature, as to the probable effects of implementing a far more comprehensive Language Act."*

Dof yn ôl at ei sylw am y sector breifat eto. Yn y cyfamser hoffwn gynnig dyfyniad arall i chi. Un fydd o bosib yn achosi peth poen i'r aelodau Llafur ar y Pwyllgor ond eto mae'n berthnasol i'r ddadl. Yn y ddadl ar Fesur yr Iaith Gymraeg yn y Senedd (a ddaeth wedyn yn Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993) fe ddywedodd Rhodri Morgan oedd yn arwain ar ran yr wrthblaid y noson honno:

"We shall be abstaining tonight because we hope to have have the opportunity before long to do the job properly. That will be done when we revisit the question of a Welsh language measure when we are in government.

Nid yn unig mae'r Blaid Llafur mewn grym a bellach ar ei hail dymor ond mae'r Cynulliad wedi ei sefydlu ers dwy flynedd a Rhodri Morgan yn Brif Weinidog. Swydd fe dybiem sy'n rhoi cyfle rhagorol iddo wireddu rhai o'i addewidion.

Y peth cyntaf y mae gwledydd eraill yn y byd yn ei wneud ar ôl ennill gradd o hunanlywodraeth yw diwygio neu basio Deddfau Iaith fydd yn rhoi statws swyddogol i'w hieithoedd cenedlaethol . Gwnaeth Latfia, Estonia a Lithuania hyn . Felly hefyd gyda ieithoedd "lleiafrifol" fel Basgeg, Catalaneg, Galisieg, yr Almaeneg yn Nenmarc, Gwlad Belg a'r Eidal a Swedeg yn y Ffindir.

Ond trown yn ôl i'n gwlad ein hunain gan nodi'r egwyddorion hynny a ystyrir gennym yn gwbl sylfaenol i Ddeddf Iaith fydd yn normaleiddio dwyieithrwydd yng Nghymru. Dylai'r Ddeddf gydnabod:

- y Gymraeg yn briod iaith Cymru;
- yr angen i sicrhau dyfodol i'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw
- y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru;
- yr angen i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg ym mhob sector;
- pwysigrwydd y Gymraeg yn y chwyldro technolegol

Hefyd os ydym am sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg yng Nghymru rhaid dileu'r cysyniad 'Cymraeg wrth ofyn' a dim ond 'pan fo'n rhesymol ymarferol' fel a osodir yn Neddf Iaith 1993.

Trafodwn yn gyntaf yr egwyddor o **Briod iaith:**

Heb amheuaeth y Gymraeg yw priod iaith Cymru.. Mae hi'n etifeddiaeth gyffredin i bawb

ohonom ac mae'n un o'r elfennau hynny sy'n gwneud Cymru yn arbennig ac yn symbol o'n hunaniaeth Gymreig. Tra bod Cymru yn wlad aml ieithog mae'r Gymraeg yn unigryw i ni. Teimlwn cysyniad o **brïod iaith** yn egluro'r teimlad sydd gan y Cymry at eu hiaith.

Yn ail edrychwn ar ddyfodol y Gymraeg fel iaith **gymunedol fyw** :

All yr iaith ddim byw mewn gwagle. Rhaid wrth seiliau economaidd cryf a chynllunio cymunedol i greu a chynnal cymunedau. Ni fydd y Gymraeg byw os nad oes gymunedau yn ei defnyddio. Credwn fod yn rhaid wrth **Ddeddf Eiddo** i sicrhau mynediad teg i bobl leol yn y farchnad dai. (Gweler ein dogfen **Deddf Eiddo**).

Yn drydydd cydnabod y Gymraeg fel **iaith swyddogol** yng Nghymru.

Mae'n bwysig nodi pa rai yw ieithoedd swyddogol Cymru fel rhan o'n hunaniaeth greiddiol. Byddai'n gam symbolaidd i ddangos y gwerth yr ydym yn ei roi ar ein iaith ac yn arwydd clir i'r byd y tu allan fod Cymru'n wlad ddwyieithog a bod angen gwasanaethau dwyieithog arni.

Fel y saif pethau mae statws y Gymraeg yn anomali yn Ewrop gan nad yw yn iaith swyddogol. Yn gyffredinol mae ieithoedd "lleiafrifol" swyddogol yn dal eu tir yn hwy nac ieithoedd nad ydynt yn swyddogol. Fel y nodwyd eisoes mae'r Gatalaneg, Basgeg a Galisieg yn mwynhau'r statws hwn eisoes.

Gan fod hybu'r Gymraeg yn faes sydd y tu allan i Fformiwla Barnett ar hyn o bryd, rhaid i'r Cynulliad drafod cyllid am hyn â'r Trysorlys. Byddai'n haws i'r Cynulliad ddadlau am arian ar gyfer y Gymraeg pe bai'r iaith a statws swyddogol.

Trown yn awr at yr angen i **ddarparu gwasanaeth Cymraeg ym mhob sector**:

Nid statws y darparwr, boed gyhoeddus, breifat, neu wirfoddol sy'n bwysig ond y ffaith eu bod yn cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd. Dylai'r cyfrifoldeb o ddarparu gwasanaeth Cymraeg fod yn ddibynnol ar natur y gwasanaeth ac nid ar natur y darparwr.

Diffyg amlwg yn Neddf Iaith 1993 yw nad yw'n cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gan y sector preifat a gwirfoddol. Mae'r ffin rhwng yr hyn sy'n "breifat" ar hyn sy'n "gyhoeddus" yn llawer llai eglur erbyn heddiw gan fod llawer o'r hen gyfleustodau cyhoeddus (dwr, nwy, trydan, rheilffyrdd) wedi eu preifateiddio a does dim hawl gan gwsmeriaid i dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg ganddynt. Mae rhai gwasanaethau o bwys bellach yn cael eu paratoi gan fudiadau gwirfoddol.

Fe ddadleuir o hyd na ddylid ymyrryd â'r farchnad rydd. Ond mae gennym eisoes ddeddfwriaeth i ddiogelu hawliau menywod, lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a'r amgylchedd. Pam gwneud eithriad o'r Gymraeg?

Gellir cynorthwyo busnes a diwydiant i gydymffurfio a deddfau newydd drwy ostwng trethi busnes a chyflwyno newidiadau yn raddol dros gyfnod o amser. Credwn fod angen creu strwythur matrices o lefelau o gyrhaeddiad derbyniol a hynny'n ddibynol ar natur y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig; adnoddau'r darparwr, nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg; lefel y cyswllt â'r cyhoedd a'r defnydd o dechnoleg.

Rhaid i'r gweithiwr allu derbyn gwasanaeth dwyieithog yn y gweithle gan ddewis yr iaith y mae'n dymuno gweithio ynddi. Dylid rhoi'r hawl i bob gweithiwr fedru dysgu Cymraeg o fewn y gweithle.

Yr olaf o'r prif bwyntiau yw ein bod yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu **Tasglu Technoleg Gwybodaeth** i ddatblygu adnoddau electronig yn y Gymraeg ac i sicrhau bod mynediad rhwydd i'r rhain ym myd addysg, y gweithle a phob man arall. Nid yw'n deg fod pobl yn gorfod troi t y Saesneg er mwyn cael cyfrannu yn y chwyldro technolegol.

Tra'n dadlau mai sicrhau Deddf Iaith Newydd fydd yn mesur lwyraf ymrwymiad y Cynulliad i'r iaith Gymraeg dyma nodi rhai o'r pethau y gall y Cynulliad ei wneud ar fyrder:

1. **rhoi statws llorweddol i'r Gymraeg yn y Cynulliad Cenedlaethol;**
2. **y Cynulliad i ddatgan** fod i'r Gymraeg statws swyddogol a'i chydabod fel priod iaith Cymru;
3. llunio drafft seneddol o Ddeddf Iaith i'w chyflwyno i San Steffan;
4. trwy Orchymyn Statudol ychwanegu at nifer y cyrff y mae gan y Bwrdd Iaith hawl i ofyn am Gynlluniau Iaith ganddynt e.e. y cyfleustopdau cyhoeddus a breifateiddiwyd megis trafndiaeth gyhoeddus, banciau, cymdeithasau adeiladu etc
5. dileu cymalau o reolau sefydlog y Cynulliad sy'n gwahaniaethu yn erbyn y Gymraeg. Mae'n bwysig iawn fod y Gymraeg yn ffactor o bwys ym mhob maes o weithgarwch y Cynulliad Cenedlaethol ac nid yn rhywbeth sydd wedi ei gyfyngu i'r pwyllgorb hwn yn unig.

-
-
-
-